**Polisi Iaith Cyngor Cymuned Rhosybol**

1. Cymraeg yw iaith y Cyngor.

2. Cedwir y cofnodion yn Gymraeg.

3. Y Gymraeg a ddefnyddir ar gyfer unrhyw weinyddiaeth

   i. Bydd unrhyw ohebiaeth uniaith Saesneg a dderbynnir oddi wrth gyrff stadudol yng Nghymru yn cael ei chydnabod yn Gymraeg gan y Clerc gyda'r troad, neu mor fuan ag sy'n ymarferol, yn gofyn am ddwyieithog o'r cyfryw lythyr ar fyrder.

   ii. Dymuna y Cyngor ohebu yn y Gymraeg hefo unryw sefydliad neu gwmni sydd a Pencadlys wedi ei leoli yng Nghymru. Bwriad y Cyngor fydd gohebu yn y Gymraeg cyn defnyddio'r Saesneg. Nodir dymuniad y Cyngor i ohebu yn
   iii. Gymraeg ar unrhyw ohebiaeth Saesneg

   iv. Cadarnheir arferiad y Cyngor o ohebu ag etholwyr unigol yn Gymraeg gan ateb llythyrau Saesneg yn Saesneg.

   v. Pan fyddwn yn defnyddio dwy neu ragor o ieithoedd, bydd blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg. Os oes amheuaeth ynghylch cyfieithiad cymerir y fersiwn Cymraeg fel yr un cywir.

   vi. Os y bydd angen mi fydd y Cyngor yn gallu darparu gwasanaeth cyfieaethu ar gyfer ymateb mewn cyfarfodydd.

4. Os bydd y Cyngor yn hysbysebu yn y wasg, bydd yr hysbysebion yn Gymraeg neu yn ddwyieithog, gyda blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg.

5. Byddai'n ddymunol i unrhyw gytundeb ar ran y Cyngor fod yn y Gymraeg os yw'n bosibl.

6. Bydd munudau cyfarfodydd yn cael ei ysgrifennu yn uniaith Gymraeg.

7. Bydd unryw weithwyr sydd yn cael eu cyflogi gan Cyngor Cymuned Rhosybol hefo sgiliau cymraeg yn fanteisiol.

8. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i effeithiau ieithyddol a diwylliannol ar unrhyw gais cynllunio. Bydd y Cyngor yn ystyried niwed i'r iaith yn ddigon o reswm ynddo'i hun i argymell gwrthod unrhyw gais cynllunio.

9. Bydd y Cyngor yn argymell i unrhyw gorff sy'n gofyn am gyfraniad ariannol gennym, ei fod yn mabwysiadu polisi iaith sy'n rhoi blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg

**Mabwysiadwyd ar: 23/6/2024**